# Cofnodion

## Cyngor

Dyddiad: Dydd Mawrth, 30 Ebrill 2019

Amser: 5.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr M Al-Nuaimi, P Cockeram, M Cornelious, D Davies, C Evans, M Evans, C Ferris, D Fouweather, G Giles, J Guy, D Harvey, I Hayat, M Kellaway, M Linton, D Mayer, R Mogford, A Morris, J Mudd, M Rahman, J Richards, M Spencer, T Suller, H Thomas, K Thomas, Councillor R Truman, T Watkins, M Whitcutt, R White, K Whitehead, D Wilcox, D Williams, G Berry, V Dudley, Y Forsey, R Hayat, T Holyoake, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall and J Watkins

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr J Cleverly, K Critchley, Councillor R Jeavons, C Jenkins, C Townsend, J Clarke, W Routley and H Townsend

---

1. **Materion Rhagarweiniol**

**i) Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb**

Adroddodd y Swyddog Monitro ymddiheuriadau am absenoldeb.

**ii) Derbyn unrhyw ddatganiadau buddiant**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Maer**

Ron Morris

Arweiniodd y Maer y Cyngor wrth gynnig teyrngedau i'r cyn Gynghorydd a'r Maer Ron Morris, fu farw fis diwethaf.
Jordan Routley

Arweiniodd y Maer y Cyngor i gydymdeimlo â'r Darpar Faer, y Cynghorydd William J Routley, a'i deulu yn sgil marwolaeth drasig ei ŵyr, Jordan Routley.
Arweiniodd y Maer funud o dawelwch fel arwydd o barch tuag at Ron Morris a Jordan Routley, ac er cof amdanynt.

Digwyddiadau Elusennol y Maer

Rhoddodd y Maer ddiweddariad i'r Cyngor ar ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Elusen y Maer, gan gynnwys noson Elvis ar 12 Ebrill, a'r Diwrnod Golff yn y Celtic Manor ar 17 Ebrill. Diolchodd y Maer i'r rhai a ddaeth i gefnogi.

2. **Cofnodion**

Cymeradwywyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Chwefror yn gywir, yn amodol ar y cywiriad a ganlyn:

- Ychwanegu rhestr o'r rhai a wnaeth ymatal rhag pleidleisio yn eitem 5 - Cyllideb Refeniw 2019-20 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

3. **Penodiadau**

Cyflwynodd y Cynghorydd Harvey yr adroddiad a oedd yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cyngor ynghylch newidiadau arfaethedig i aelodaeth Pwyllgorau.

Penderfynwyd

Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol:

Penodiadau Mewnol

| Pwyllgor | Nifer y Seddau Gwag / Newidiadau | Enwebiadau a gafwyd |
|---|---|---|
| Pwyllgor Trwyddedu | 1 | Tynnu'r Cyng Allan Morris o'i sedd, neb i gymryd ei le (sedd wag) |

Penodiadau i Sefydliadau Allanol

| Sefydliad | Nifer y Seddau Gwag / Newidiadau | Enwebiadau a gafwyd |
|---|---|---|
| Dim | | |

Cyrff Llywodraethol

| Corff Llywodraethol | Nifer y seddau gwag / ailbenodiadau | Enwebiadau a gafwyd |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Millbrook | 1 | Ailbenodi Mrs L Stannard |
| Ysgol Gynradd Clytha | 1 | Mrs Anne Timbrll i gymryd lle'r Cyng C Ferris |

4. **Materion yr Heddlu**

Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd y Maer y Prif Gwnstabl ar y newydd y byddai'n ymddeol yn fuan. Diolchodd y Maer i'r Prif Gwnstabl am ei wasanaeth a'i gefnogaeth i'r Ddinas yn ystod ei amser gyda Heddlu Gwent.

Rhoddodd y Prif Gwnstabl Nigel Lewis gyflwyniad a oedd yn cynnwys trosolwg o'r materion yn gysylltiedig â Phlismona Canol y Ddinas.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Swyddogion am ddod i'r cyfarfod i drafod eu gwaith gyda'r Cyngor, a diolch i'r Prif Gwnstabl am ei waith caled a'i ganmol am y berthynas yr oedd wedi'i meithrin â'r Cyngor yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Dymunodd yr Arweinydd yn dda i'r Prif Gwnstabl ar ei ymddeoliad.

Gofynnodd yr Cynghorwyr y cwestiynau a ganlyn:

- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Hourahine, amlinellodd yr Uwcharolygydd Ian Roberts lwyddiant Ymgyrch Harley a oedd wedi targedu defnydd anghyfreithlon o feiciau oddi ar y ffordd.
- Mynegodd y Cynghorydd M Evans bryderon ynghylch diogelwch yng nghanol y ddinas, amlinellodd y Ditectif Uwcharolygydd Ian Roberts fod tua 30 o ddigwyddiadau yng nghanol y ddinas a bod yr heddlu'n gweithio gyda'r rhai y mae hyn yn effeithio arnynt i ystyried yr hyn sydd wrth wraidd y digwyddiadau hynny. Wrth ystyried digartrefedd a chysgu allan, amlinellodd y swyddog bwysigrwydd taro cydbwysedd rhwng cefnogi pobl agored i niwed a chymryd camau gorfodi priodol.
- Gofynnodd y Cynghorydd J Watkins a oedd pobl a oedd yn dod o'r tu allan i'r ddinas i gardota yng nghanol y ddinas yn broblem yng Nghasnewydd. Nododd yr Arolygydd Lewis fod pobl yn dod o'r tu allan i'r ddinas ac roedd y rheiny'n cael eu cyfeirio i sylw eu hawdurdodau lleol eu hunain i dderbyn cymorth.
- O ran y ffyn synhwyro a oedd yn cael eu dosbarthu i stopio a chwilio pobl wrth fynd i mewn i glybiau nos, gofynnodd y Cynghorydd T Watkins a lwyddwyd i atal mynediad i bobl drwy hynny. Cadarnhaodd yr Arolygydd Lewis y bu nifer o arestiadau am fod ag arfau ymosodol mewn meddiant yn sgil y chwiliadau hyn. Roedd y nifer yn arbennig o uchel a heb fod yn debyg i ddinasoedd fel Manceinion a Llundain.
- Siaradodd y Cynghorydd C Evans am daro cydbwysedd rhwng camau gorfodi am droseddau treisgar a'r bobl hynny a oedd yn agored i niwed ac yr oedd angen cymorth arnynt.

Diolchodd y Maer i'r Heddlu am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r cyfarfod.

5. **Adolygiad y Comisiwn Ffiniau**

Eglurwyd y gallai'r Aelodau siarad am bob argymhelliad gan y byddent yn cael eu hystyried yn unigol gan y Cyngor.

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a amlinellai'r broses a ddilynwyd gan y Cyngor i sefydlu Grŵp Trawsbleidiol i adolygu'r dystiolaeth ar gyfer trefniadau etholiadol yn y dyfodol yn y ddinas, a'r cynigion a oedd wedi'u llunio ar gyfer hynny, i'w trafod gan y Cyngor.

Diolchodd yr Arweinydd i holl gynrychiolwyr y grwpiau a'r Swyddogion cefnogol am eu cyfraniadau, a hynny o fewn amserlen heriol. Diolchodd yr Arweinydd hefyd i'r Comisiwn am ei gefnogaeth yn ystod y broses ac am gytuno i estyniad byr fel y gallai'r Cyngor drafod yr opsiynau yn y cyfarfod hwn.

**Argymhelliad 1:**

**Penderfynwyd** y dylai'r Cyngor gefnogi'r mân ddiwygiadau i ffiniau a nodwyd yn adran Mân Anghysondebau yr adroddiad hwn.

**Argymhelliad 2:**

Cynigiwyd ac eiliwyd Opsiwn 2a.

Siaradodd y Cynghorydd Kellaway yn erbyn opsiwn A oherwydd teimlai ei fod yn anwybyddu gwahaniaethau cymunedol yr ardaloedd dan sylw, ac y byddai hynny'n ddiwedd ar ardal Llan-wern. Nid oedd ychwaith yn cymryd i ystyriaeth y deipograffeg naturiol na ffyrdd o fewn y wardiau.

Siaradodd y Cynghorydd Mogford o blaid Opsiwn B – symud ardal Cyngor Cymuned Trefesgob, sy'n cynnwys Wardiau Cymunedol Trefesgob ac Underwood, i Langstone. Teimlai y byddai ardal Cymuned Trefesgob yn ffitio'n dda o fewn ward lled-wledig Langstone a bod synergedd cryf o Gymunedau o fewn yr opsiwn hwn.

**Penderfynwyd** y dylai'r Cyngor gefnogi opsiwn 2a - *Symud Cymuned Llan-wern i Ringland.*

**Argymhelliad 3:**

Cynigiwyd ac eiliwyd Opsiwn 3a.

Siaradodd y Cynghorydd C Evans yn erbyn opsiwn 3a, gan gyfeirio at oblygiadau ymarferol rhannu'r gymuned fel hyn. Siaradodd o blaid y status quo yn Nhŷ-du oherwydd teimlai nad oedd angen rhannu'r gymuned.

Siaradodd y Cynghorydd M Evans o blaid opsiwn 3a, gan mai dyna fyddai'r ffordd fwyaf ymarferol o fynd i'r afael â thangynrychiolaeth Tŷ-du o blith yr opsiynau a oedd ar gael. Byddai hefyd yn creu 2 ward ac ynddynt 2 gynghorydd yr un, yn hytrach na chreu wardiau un aelod.
**Penderfynwyd** bod y Cyngor o blaid opsiwn 3a - *Creu dwy ward newydd, sef Ward Cymuned Gorllewin Tŷ-du a chyfuno wardiau cymunedol Gogledd a Dwyrain Tŷ-du. (2 Gynghorydd)*

Argymhelliad 4

Cynigiwyd ac eiliwyd Opsiwn 4a.

Siaradodd y Cynghorydd M Evans yn erbyn opsiwn 4a gan gyfeirio at y drafodaeth a gefnogwyd yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, sef bod ardal Pillgwenlli yn nes at Stow Hill, ac felly fod Opsiwn 4b yn fwy ymarferol.

Siaradodd y Cynghorydd Fouweather am yr argymhelliad, gan nodi ei fod yn ddewis anodd heb unrhyw ateb clir. Nododd y byddai Opsiwn 4b yn hollti cymuned, tra bod opsiwn 4b (symud ystâd newydd Mon Bank i Stow Hill) o bosib yn fwy ymarferol gan ei fod yn symud cymuned yn ei chyfanrwydd.

**Penderfynwyd** bod y Cyngor o blaid opsiwn 4a: *Ychwanegu ardal "Glan yr Afon" ym Mhillgwenlli at Stow Hill.*

Argymhelliad 5

Cynigiwyd ac eiliwyd opsiwn 5b.

Siaradodd y Cynghorydd R White yn erbyn opsiwn 5b, gan ei fod yn teimlo ei fod yn torri cysylltiadau cymunedol lleol Saint-y-brid a Llanbedr sydd gyda'i gilydd yn ffurfio ardal Cyngor Cymuned Gwynllŵg. Ni fyddai gan y cynnig ffiniau clir ychwaith ac ni fyddai'n effeithiol nac yn gyfleus i Gyngor Cymuned weithredu'n effeithiol dros ddwy ward etholiadol cyngor dinas pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. Siaradodd y Cynghorydd o blaid opsiwn 5a.

Siaradodd y Cynghorydd T Suller hefyd o blaid opsiwn 5a.

**Penderfynwyd** bod y Cyngor o blaid Opsiwn 5b: *ychwanegu Wardiau Saint-y-brid a Choedcernyw at Barc Tredegar.*

Argymhelliad 6 a 7

Cynigiwyd ac eiliwyd opsiynau 6a a 7a.

Siaradodd y Cynghorydd D Davies o blaid argymhelliad 6a, gan nodi bod ward Beechwood wedi'i rhannu'n 4 ardal ddaearyddol. Nodwyd bod ward Beechwood yn cynnwys cymunedau gwahanol, pob un â'i hunaniaeth ei hun. Pe bai nifer y Cynghorwyr yn gostwng i ddau, byddai hynny'n anghynaladwy ac yn anodd i'w reoli.

Siaradodd y Cynghorydd M Evans yn erbyn cynyddu maint cyffredinol y Cyngor drwy gael un Cynghorydd ychwanegol, ac o blaid argymhelliad y Comisiwn Ffiniau i gael un yn llai o Gynghorwyr, sef cyfanswm o 49.
Siaradodd y Cynghorydd K Whitehead yn erbyn unrhyw ostyngiadau, gan awgrymu bod y newidiadau'n ddiangen ac nad oedd y cyfrifiadau yn rhoi ystyriaeth briodol i'r oedolion hynny nad oeddent ar y gofrestr etholiadol ac nad oedd modd felly eu cyfrif wrth fodelu.

**Penderfynwyd** bod y Cyngor o blaid opsiwn 6a: *Cadw tri Chynghorydd yn Beechwood, ac opsiwn 7 a: Cadw tri Chynghorydd ym Metws gan olygu bod y Cyngor yn cynnwys 51 o Gynghorwyr.*

Argymhelliad 8

Holodd y Cyng C Evans pam nad oedd y ward hon yn cael ei rhannu yn yr un ffordd ag y rhannwyd Tŷ-du yn Argymhelliad 3. Eglurodd Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio na fyddai'r Comisiwn Ffiniau'n derbyn unrhyw wardiau 4 aelod newydd, ac eithrio lle bo gan y Cyngor eisoes wardiau 4 Aelod a oedd o fewn y paramedrau o ran cynrychiolaeth, fel yn achos Llyswyry.

**Penderfynwyd** cefnogi'r cynnig i gadw pedwar cynrychiolydd yn Llyswyry, a rhoi'r gorau i ddefnyddio hen sillafiad Liswerry o blaid defnyddio Lliswerry ar ei ffurf Seisnig.

6. **Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

Cyflwynodd y Cynghorydd Charles Ferris yr adroddiad fel Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau

Democrataidd. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) oedd y corff sy'n gyfrifol am bennu lefelau tâl Cynghorau yng Nghymru, ac roedd yr adroddiad hwn yn cyflwyno'u Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-20.

Roedd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi adolygu'r cynigion hyn ar y cam drafft ac wedi rhoi sylwadau yn ôl i'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol yn rhan o'u proses ymgynghori. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, dywedodd y Cynghorydd Ferris y bu'n bresennol mewn cyfarfod â Chadeiryddion y Gwasanaethau Democrataidd o Awdurdodau eraill i drafod y newidiadau hyn yn uniongyrchol â'r Panel.

Dyma'r prif newidiadau ar gyfer eleni:

- Cynnydd o 1.97% i gyflogau sylfaenol, sy'n cyfateb i £268.
- Cynnydd o £800 i gyflogau aelodau gweithredol, a oedd yn cynnwys y cynnydd i'r gyfradd sylfaenol.
- Newid i'r bandiau ar gyfer y penaethiaid a'r dirprwy benaethiaid dinesig, gan gael gwared â'r raddfa daliadau ar wahân ar gyfer y swyddi hyn.

Penderfynwyd

Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r penderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2019-20, ac yn cymeradwyo'r atodlen ddrafft o Daliadau a oedd ynghlwm yn Atodiad 1 yr agenda.

7. **Polisi Tâl a Gwobrwyo**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad hwn i'r Cyngor a dywedodd mai Adroddiad Blynyddol oedd y Polisi Tâl a Gwobrwyo yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor ei gymeradwyo. Roedd yn nodi'r mecanweithiau mewnol ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth ariannol i Swyddogion y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cyngor am y prif ddiweddariad eleni:

- Mae strwythur cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer y rhan fwyaf o staff y Cyngor wedi'i newid o ganlyniad i'r dyfarniad cyflog y cytunwyd arno'n genedlaethol ar gyfer 2019. Mae hyn yn effeithio ar bob Cyngor a bu'n ofynnol i ni adolygu a diweddaru ein graddfeydd cyflog i adlewyrchu'r sefyllfa genedlaethol newydd.

- Roedd cyd-gytundeb newydd wedi'i lofnodi gan yr undebau llafur cydnabyddedig a oedd yn cynrychioli'r gweithwyr NJC hynny. Byddai'r gweithiwr Cyngor ar y cyflog isaf bellach yn derbyn cyflog contract a oedd yn gyfwerth â chyfradd y Cyflog Byw Sylfaenol, sef £9.00 fesul awr.

- Yn ogystal â'r newid hwn, roedd y Polisi Tâl a Gwobrwyo yn adrodd ar y bwlch blynyddol rhwng cyflogau'r rhywiau. Mae'r bwlch wedi cynyddu i 4% o'r 1% a adroddwyd y llynedd, ac yn sgil dadansoddi'r data gwelwyd mai'r rheswm am hyn oedd bod llawer mwy o ddynion ar gyflogau is wedi gadael y gwaith na menywod.

Penderfynwyd

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Polisi Tâl a Gwobrwyo er mwyn bodloni gofynion statudol i gyhoeddi 'datganiad tâl'.

8. **Diweddariad ynghylch y Strategaeth Gyfalaf - Ymagwedd Masnacheiddio**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad a esboniai pam bod y Cyngor yn mabwysiadu'r ymagwedd hon yn y cyd-destun ariannol cyfredol.

Byddai'n rhaid i'r Cyngor ganfod £30 miliwn o'i gyllideb dros y 3 blynedd nesaf, ac ar gyfer hynny roedd yn ystyried yr opsiynau a oedd ar gael i ymdrin â'r her aruthrol. Yn ei gyfarfod diwethaf roedd y Cabinet wedi cytuno ar ymagwedd i sefydlu cwmni masnachu er mwyn cipio a chynhyrchu gweithgarwch creu elw. Roedd angen ymchwilio ymhellach i hyn, ac roedd yr adroddiad yn cynnig neilltuo hyd at uchafswm o £100,000 i'r perwyl hwnnw, i'w adolygu gan y Cabinet.

Eiddo masnachol, a sefydlu Bwrdd buddsoddi gyda chapasiti benthyca wedi'i ddyrannu o hyd at £50 miliwn ar gyfer buddsoddiadau posibl. Prif amcan yr ymagwedd hon oedd cefnogi'r weledigaeth sydd wedi'i hymwreiddio yn y Cynllun Corfforaethol a hyrwyddo gwerth cymdeithasol. Yr ail amcan oedd creu elw a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau craidd y Cyngor.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr adroddiad.

Cynigiodd y Cyng M Evans y gwelliant a ganlyn:

‘Nodi bod y Cabinet yn argymell canlyn yr ymagweddau hyn, gan gynnwys sefydlu cronfa eiddo masnachol gwerth **£25m** i greu incwm net i'r Cyngor, yn amodol ar ystyriaeth y Cyngor drwy eu cynnwys yn Strategaeth Gyfalaf y Cyngor.

Eiliwyd y gwelliant gan y Cyng D Williams. Ar ôl cyflwyno'r gwelliant i'r cyfarfod, datganwyd ei fod wedi'i **golli.**

Cafwyd trafodaeth ar y cynnig gwreiddiol.

Pwyntiau a wnaed yn erbyn y cynnig gwreiddiol:

- Ystyriwyd bod £25 miliwn yn swm mwy darbodus a chymesur i liniaru'r risg;
- Dadleuwyd bod gan y Cyngor adnoddau ac arbenigedd digonol i gynnal yr astudiaeth ddichonoldeb yn fewnol.
- Y cydbwysedd o ran ymatebolrwydd masnachol, a'r angen i sicrhau atebolrwydd cyhoeddus.

Pwyntiau a wnaed o blaid yr adroddiad:

- Roedd angen buddsoddi cyfalaf i gefnogi gwariant ar wasanaethau craidd ac roedd angen yr ymagwedd hon i bontio'r bwlch cyllido.
- Roedd angen cael cyngor arbenigol ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb i sicrhau bod cyn lleied â phosib o risg, ac i sicrhau bod buddsoddiadau'n cydymffurfio â'r cod darbodus.
- Ni fyddai £25 miliwn yn creu'r crynswth allweddol i gefnogi'r gwariant angenrheidiol ar wasanaethau craidd.

Penderfynwyd

Bod y Cyngor yn:

1. Nodi datblygiad yr ymagwedd masnacheiddio, yn enwedig y ddau opsiwn a amlinellwyd fel y cam cyntaf tuag at weithredu'r ymagwedd hon, fel strategaeth i gyfrannu at heriau ariannol parhaus y Cyngor.
2. Nodi bod y Cabinet yn argymell canlyn yr ymagweddau hyn, gan gynnwys sefydlu cronfa eiddo masnachol gwerth £50m i greu incwm net i'r Cyngor, yn amodol ar ystyriaeth y Cyngor drwy eu cynnwys yn Strategaeth Gyfalaf y Cyngor.

3. Ystyried manteision a risgiau argymhelliad y Cabinet ynghylch y strategaeth masnacheiddio arfaethedig, yn enwedig sefydlu cronfa buddsoddi mewn eiddo gwerth £50 miliwn.
4. Nodi y bydd y Cyngor yn ymrwymo i fod mewn dyled am y tymor hir, a'r risgiau'n gysylltiedig â hyn, a amlygwyd yn yr adroddiad, ochr yn ochr â risgiau a geir eisoes.
5. Gan ystyried yr uchod:
    - Cymeradwyo'r diweddariad i'r dyfyniad o'r strategaeth gyfalaf yn Atodiad 1, sy'n amlinellu'r opsiynau hyn yn gysylltiedig ag ymagwedd masnacheiddio'r Cyngor.
    - Cymeradwyo terfyn benthyca o £50m a'r terfynau cymeradwy cysylltiedig yn Atodiad 2

9. **Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

Cyhoeddiadau'r Arweinydd

Gwnaeth yr Arweinydd y cyhoeddiadau a ganlyn:

- Y penwythnos hwn bydd Casnewydd yn cynnal Marathon a ras 10km ABP Casnewydd.
- Siarter Marw i Weithio – bydd y Cyngor yn adolygu'r tâl a'r polisi salwch i adlewyrchu hyn. Drwy lofnodi'r Siarter mae'r Cyngor wedi dangos ei ymrwymiad i weithwyr sy'n wynebu amgylchiadau personol trasig.

    Yn brin o bwynt bwled - Addewid i Bobl Ifanc - yn nodi hawliau plant a phobl ifanc wrth gyrchu gwasanaethau'r Cyngor. Datblygwyd y Siarter i Gasnewydd gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc, ac mae'n cynnwys yr ymrwymiadau sydd yn fwyaf pwysig i bobl ifanc Casnewydd.

- Mae Rhwydwaith Economaidd Casnewydd wedi cyhoeddi cynnig i sefydlu Sefydliad Technoleg Cenedlaethol yn y Ddinas. Byddai hwn yn sefydliad blaenllaw yn y byd sy'n cynnal rhaglenni technoleg addysg uwch, gan bwysleisio arloesedd, entrepreneuriaeth a masnacheiddio. Byddai'n cynhyrchu'r sgiliau angenrheidiol i Gymru elwa ar gyfleoedd i'n cymunedau.

Rhwydwaith Economaidd Casnewydd

Mynegodd y Cynghorydd M Evans bryderon ynghylch yr ymrwymiad a ddatganwyd gan y Cabinet i fod yn agored a thryloyw; cyfeiriodd i ddechrau at y ffaith bod Aelod Cabinet wedi gwrthod ateb cwestiynau mewn Pwyllgor Craffu ynghylch Rhwydwaith Economaidd Casnewydd; ac yn ail, nododd enghreifftiau o benderfyniadau o bwys a wnaed yn breifat. Er mwyn hyrwyddo agwedd agored a thryloyw, gofynnwyd i'r Arweinydd a fyddai cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal â phobl fusnes leol i wrando ar eu pryderon a'r hyn a oedd o bwys iddynt.

Amlinellodd yr Arweinydd mai cyfarfod allanol oedd Rhwydwaith Economaidd Casnewydd, a bod angen i'r ateb i'r cwestiwn a ofynnwyd ddod gan y Rhwydwaith yn hytrach na'r Aelod Cabinet. Cytunodd yr Arweinydd i drosglwyddo sylwadau'r Cynghorydd Evans i Gadeirydd y Rhwydwaith a cheisio cael eglurhad ynghylch y pwyntiau a godwyd. Mewn perthynas â'r penderfyniadau a wnaed yn gyfrinachol, tynnodd yr Arweinydd sylw at y gynsail a oedd wedi'i sefydlu ar gyfer ymagwedd hon, ac at faterion sy'n ymwneud â chyfrinachedd masnachol, a all effeithio ar yr wybodaeth sydd ar gael cyn gwneud penderfyniadau ynghylch prosiectau graddfa fawr.

Fel cwestiwn atodol, holodd y Cyng Evans faint o fanylion oedd wedi'u cynnwys yn y penderfyniadau a gofnodwyd yn yr enghreifftiau dan sylw.

Mewn ymateb i hyn, gofynnodd yr Arweinydd am gael rhannu'r cyngor a roddwyd yn flaenorol gan y Prif Weithredwr a Phennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio ynghylch mynediad y cyhoedd at adroddiadau.

Casglu Sbwriel

Canmolodd y Cynghorydd Whitehead y rhai a gymerodd ran yn y digwyddiad casglu sbwriel a gynhaliwyd ledled y Ddinas yn ddiweddar, ac amlinellu'r problemau'n gysylltiedig â thipio anghyfreithlon a thagfeydd traffig o amgylch Heol y Dociau ers cyflwyno'r biniau sbwriel o faint newydd. Gofynnwyd i'r Arweinydd a ellid anfon swyddogion o'r Cyngor i gefnogi'r grwpiau casglu sbwriel niferus sy'n gweithredu yn y Ddinas. Nodwyd bod achosion cynyddol lle'r oedd y grwpiau hyn yn ymdrin â deunyddiau peryglus, fel eitemau miniog.

Canmolodd yr Arweinydd hefyd ymdrechion gwirfoddolwyr a oedd yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd casglu sbwriel, ac roedd yn cydnabod bod tipio anghyfreithlon yn broblem genedlaethol, ond gan fod adnoddau'n brin o fewn y Cyngor roedd hi'n annhebygol y byddai modd darparu swyddogion i gefnogi'r gweithgareddau hyn yn uniongyrchol.

Gofynnodd y Cynghorydd Whitehead a fyddai swyddog cyswllt yn gallu darparu hyfforddiant a chymorth o fath arall i'r grwpiau hyn. Cytunodd yr Arweinydd i ymchwilio i'r awgrym hwn.

Cronfa Economi Gylchol Llywodraeth Cymru

Gofynnodd y Cynghorydd Hourahine i’r Arweinydd a fyddai’r gronfa a lansiwyd gan y Dirprwy Weinidog dros Lywodraeth Leol ddoe o fudd i Gasnewydd.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Dirprwy Weinidog Llywodraeth Leol wedi lansio'r gronfa o £6.5 miliwn i sbarduno Cymru tuag at economi gylchol. Byddai grantiau rhwng £25,000 a £750,000 ar gael i fusnesau ystyried eu defnydd o ddeunyddiau ailgylchu. Buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru oedd y gronfa hon, er mwyn i fusnesau ystyried eu defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu wrth weithgynhyrchu, a'r bwriad oedd y byddai hyn yn ysgogi deunyddiau ailgylchu eilaidd. Po fwyaf o becynnu wedi'i ailgylchu a fyddai'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru, y mwyaf fyddai'r galw am y deunydd crai hwn. Amlygodd yr Arweinydd y targedau uchelgeisiol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, sef ailgylchu 75% o fewn y Strategaeth Ddiwastraff.

Fel cwestiwn atodol, gofynnodd y Cynghorydd Hourahine am ddiweddariad ynghylch sut roedd y broses o gyflwyno’r biniau newydd yn mynd rhagddi, ac a oedd unrhyw arwydd bod cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu ers eu cyflwyno.

Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cyngor fod targedau gwastraff awdurdodau lleol yn heriol a bod y Cyngor yn hynod ymwybodol o'r angen i warchod yr amgylchedd a chyrraedd y targedau hyn. Roedd yr Aelod Cabinet wedi cymeradwyo nifer o argymhellion yn ddiweddar gyda’r nod o wella’r gyfradd ailgylchu, a dechreuwyd y broses o gyflwyno’r biniau llai ar 1 Ebrill 2019. Roedd 20,000 o finiau wedi'u dosbarthu, a oedd wedi arwain at 4,000 o geisiadau ychwanegol am finiau ailgylchu. Nid oedd y Cyngor ond megis dechrau gweithredu hyn, ond yn ôl yr arwyddion cynnar roedd maint y sbwriel wedi gostwng 30%, gwastraff bwyd

wedi cynyddu 25% a gwastraff garddio wedi cynyddu. Pe bai'r ffigurau hyn yn cael eu cynnal, byddai'r Cyngor yn rhagori ar ei darged ac yn arbed arian i'r Cyngor. Roedd 98% o drigolion yn cydymffurfio â’r polisi, a diolchodd yr Arweinydd i bobl Casnewydd am hyn.

10. **Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet**

Nid oedd unrhyw gwestiynau i Aelodau’r Cabinet.

11. **Cwestiynau i Gadeiryddion y Pwyllgorau**

Nid oedd unrhyw gwestiynau i Gadeiryddion y Pwyllgorau.

12. **Cofnodion y Pwyllgor Safonau**

Nodwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau.